**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Dyddiad: 17 Hydref 2022

Annwyl gyfaill,

**Ymchwiliad i ddiwygio'r dreth gyngor**

Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd yn cynnal ymchwiliad i ddiwygio'r dreth gyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cynigion polisi a deddfwriaethol sydd wedi'u nodi yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, Treth Gyngor Decach, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2022. Bydd y Pwyllgor yn archwilio'r effaith y gallai'r cynigion ei chael ar gyllid a threfniadau gweinyddu llywodraeth leol, a'r potensial ar gyfer symleiddio fframwaith disgowntiau a gostyngiadau'r dreth gyngor. Yn benodol, bydd yr ymchwiliad yn ystyried y materion a ganlyn:

- Effaith bosibl ailbrisio'r dreth gyngor a diwygio bandiau'r dreth gyngor ar gyllid a threfniadau gweinyddu llywodraeth leol.
- Manteision ac anfanteision posibl ailbrisio eiddo yn rheolaidd ar drefniadau gweinyddu llywodraeth leol, a'r effaith ar y rhai sy'n gyfrifol am dalu'r dreth gyngor.
- Effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer disgowntiau ac eithriadau mewn perthynas â'r dreth gyngor, a sut y gellid datblygu a gwella'r system.
- Yr achos dros newid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n rhoi cymorth i'r aelwydydd incwm isel sydd fwyaf agored i niwed, a'r posibiliadau o ran gwella'r system.

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn ymateb i'r cylch gorchwyl uchod, i'w gynorthwyo yn ei drafodaethau ar yr ymchwiliad.

**Cyflwyno tystiolaeth**

Os hoffech ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, e-bostiwch gopi electronig o'ch tystiolaeth i SeneddTai@senedd.cymru neu anfonwch drwy'r post at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Senedd Cymru, Caerdydd, CF99 1SN.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno'n ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno ynddi, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau a'r Hysbysiad Preifatrwydd sy'n ymwneud â chyfrannu at waith pwyllgorau'r Senedd.

**Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn dydd Gwener 11 Tachwedd 2022. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Manon George, Clerc y Pwyllgor ar 0300 200 6219.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.